## P-04-590 Cyllid ar gyfer gwasanaeth bws arfordirol y Cardi Bach

**Manylion**:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adfer y cyllid ar gyfer gwasanaeth bws arfordirol y Cardi Bach yng Ngheredigion.

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adfer y cyllid ar gyfer gwasanaeth bws arfordirol y Cardi Bach yng Ngheredigion.

**Gwybodaeth ychwanegol**

Bydd gwasanaeth bws arfordirol y Cardi Bach, sy'n rhedeg rhwng Aberteifi a Cheinewydd, yn dod i ben ar 30 Medi oherwydd diffyg cyllid. Roedd y gwasanaeth yn derbyn rhywfaint o arian gan Lywodraeth Cymru o dan y Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013.

Mae cynnydd amlwg wedi bod yn nifer yr ymwelwyr i'r ardal hon, yn enwedig cerddwyr, ers agor Llwybr Arfordir Cymru yn 2012. Mae'r gwasanaeth bws arfordirol wedi galluogi ymwelwyr i fynd i'r trefi a'r pentrefi ar hyd y llwybr.

Mae'r gwasanaeth bws yn dod â chwsmeriaid i fusnesau lleol.

Mae'n boblogaidd gyda cherddwyr ar Lwybr Arfordir Cymru, gan ei fod yn eu galluogi i fwynhau teithiau cerdded llinellol.

Mae'n rhoi dewis arall i breswylwyr ac ymwelwyr, ar wahân i'r car.

Bydd rhai ardaloedd gwledig, yn arbennig, yn dioddef anghyfleustra os bydd y gwasanaeth bws yn dod i ben. Er enghraifft, mae Cwmtudu yn bentref poblogaidd ar y llwybr yr arfordir, hanner ffordd rhwng Ceinewydd a Llangrannog. Os bydd rhywun am gael bws o fan hyn, byddai'n rhaid iddo gerdded 4 milltir i'r llwybr bws agosaf. Byddai'n cael anhawster yn ffonio am

dacsi gan nad oes blwch ffôn cyhoeddus, a gan fod y signal ffôn symudol yn wael iawn– Bydd gwasanaeth bws arfordirol y Cardi Bach, sy'n rhedeg rhwng Aberteifi a Cheinewydd, yn dod i ben ar 30 Medi oherwydd diffyg cyllid. Roedd y gwasanaeth yn derbyn rhywfaint o arian gan Lywodraeth Cymru o dan y Cynllun Datblygu Gwledig 2007–2013.

Mae cynnydd amlwg wedi bod yn nifer yr ymwelwyr i'r ardal hon, yn enwedig cerddwyr, ers agor Llwybr Arfordir Cymru yn 2012. Mae'r gwasanaeth bws arfordirol wedi galluogi ymwelwyr i fynd i'r trefi a'r pentrefi ar hyd y llwybr.

Mae'r gwasanaeth bws yn dod â chwsmeriaid i fusnesau lleol.

Mae'n boblogaidd gyda cherddwyr ar Lwybr Arfordir Cymru, gan ei fod yn eu galluogi i fwynhau teithiau cerdded llinellol.

Mae'n rhoi dewis arall i breswylwyr ac ymwelwyr, ar wahân i'r car.

Bydd rhai ardaloedd gwledig, yn arbennig, yn dioddef anghyfleustra os bydd y gwasanaeth bws yn dod i ben. Er enghraifft, mae Cwmtudu yn bentref poblogaidd ar y llwybr yr arfordir, hanner ffordd rhwng Ceinewydd a Llangrannog. Os bydd rhywun am gael bws o fan hyn, byddai'n rhaid iddo gerdded 4 milltir i'r llwybr bws agosaf. Byddai'n cael anhawster yn ffonio am dacsi gan nad oes blwch ffôn cyhoeddus, a gan fod y signal ffôn symudol yn wael iawn

**Prif ddeisebydd** : Janet Richardson

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 23 Medi 2014

**Nifer y llofnodion:** 1,084 llofnod bapur a 121 a'r lein. Cyfanswm 1,205